



[WWW.CBAC.CO.UK/MYFYRWYR](http://WWW.CBAC.CO.UK/MYFYRWYR)

**TGAU AC UG/SAFON UWCH**

**CANLLAW I FYFYRWYR  
AR ARHOLIADAU HAF 2022**

### Pam mae arholiadau'n bwysig?

Mae arholiadau yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. Maen nhw'n ffordd wych o arddangos eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau.

Ar ben hynny, maen nhw'n rhoi cymwysterau i chi, sy'n gallu agor drysau i amrywiaeth o lwybrau i'ch dyfodol, gan gynnwys addysg uwch a'r farchnad swyddi.

### Sut mae arholiadau'n wahanol yn 2022?

Rydym yn cydnabod y bydd myfyrwyr wedi colli cryn dipyn o amser dysgu gwerthfawr. Oherwydd hynny, rydym wedi gwneud cyfres o newidiadau i'r ffordd y bydd TGAU ac UG/Safon Uwch yn cael eu hasesu yn Haf 2022.

Mae'r esboniad llawn o'r newidiadau ar gael o'r [canllaw canlynol](#).

### Sut mae fy arholiadau'n cael eu datblygu?

Mae'r broses o ddatblygu eich arholiadau'n un hir a chymhleth iawn, sydd ar gyfartaledd yn cymryd tua 18 mis i'w chwblhau.

Cofiwch, ar gyfer eleni, rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydych yn cael eich asesu.

Mae timau o arbenigwyr pwnc yn gwneud yn siŵr bod eich arholiadau'n asesu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n gywir ar gyfer y cymhwyster.

### Sut mae'r cynllun marcio'n cael ei ddatblygu?

Rydym yn creu cynlluniau marcio, fel y gall arholwyr farcio'ch papurau'n gywir. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach ar ôl i'r uwch arholwyr adolygu amrywiaeth o ymatebion myfyrwyr i'r cwestiynau. Rydym am sicrhau bod arholwyr yn rhoi marciau i chi ar gyfer pob ateb cywir posibl.

### Pwy sy'n marcio fy arholiadau?

Mae pob papur yn cael ei farcio gan un o'n harholwyr. Athrawon cymwys a phrofiadol yw ein harholwyr, ac maen nhw'n cael eu hyfforddi'n llawn bob blwyddyn i farcio yn unol â'n safonau a'n gofynion ni.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod eich gwaith wedi'i farcio'n deg ac yn gywir, mae marcio pob arholwr yn cael ei wirio'n rheolaidd. Gallwch fod yn hyderus y bydd eich marc terfynol yn adlewyrchu safon y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

### Beth yw ffiniau graddau?

Ffiniau graddau yw'r marciau sydd eu hangen arnoch i gyflawni gradd benodol.

Gan fod arholiadau'n amrywio rhwng blynyddoedd, mae ein ffiniau graddau'n amrywio hefyd.

Unwaith y bydd yr holl arholiadau wedi'u sefyll a'u marcio, mae uwch arholwyr yn adolygu amrywiaeth o sgrïptiau arholiad i bennu ffiniau graddau.

Gallwch chi weld ffiniau graddau eich pwnc ar ddiwrnod cyhoeddi eich canlyniadau.

### A fydd ffiniau graddau yn wahanol yn 2022?

Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau y bydd y broses raddio'n fwy hael yn 2022 nag yr oedd hi pan gafodd arholiadau eu sefyll ddiwethaf yn 2019.

### Daliwch ati i ganolbwyntio, a byddwch yn gadarnhaol!

Rydyn ni'n deall bod aros yn frwdfrydig yn anodd weithiau wrth adolygu ac yn ystod y tymor arholiadau. Fodd bynnag, mae ein tîm wedi creu banc o offer, adnoddau a blogiau defnyddiol i'ch cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r holl adnoddau hyn ar gael i'w llwytho i lawr o'n gwefan am ddim. Ewch i [www.cbac.co.uk/myfyrwyr](http://www.cbac.co.uk/myfyrwyr)

Mae ein timau'n deall yr anawsterau rydych chi wedi'u hwynebu ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod eich graddau terfynol yn deg ac yn adlewyrchu eich cyrhaeddiad o ystyried yr heriau diweddar.

Cofiwch mai cyfnod cymharol fyr yw'r tymor arholiadau. Bydd eich gwaith caled yn talu ar ei ganfed a gallwch chi wobrwyo eich hun wedyn!